DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

CYNNIG YSGOLION 2025/26

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn elusen addysgol gwrth-hiliaeth. Rydym yn gweithio i herio hiliaeth drwy alluogi modelau rôl mewn cymunedau, mudiadau a chwaraeon i ddadosod hiliaeth yn y gymdeithas.

Ein nod ydy byw mewn cymdeithas heb hiliaeth.

Drwy gydol y pecyn hwn, byddwch yn darganfod mwy am y rhaglenni effeithiol rydym yn eu cynnig i ysgolion. Os hoffech chi ragor o wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu gydag aelod o'n tîm.

wales@theredcard.org

Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi'n fuan.

Dean Pymble

Rheolwr Ymgyrchoedd dros Gymru

Link to the annual review

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

FELLY, BETH GALL DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH CYMRU EI GYNNIG I LEOLIADAU ADDYSG?

GWEITHDAI I DDISGYBLION

Ym mhob lleoliad gan gynnwys ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu blant y tu allan i'r system addysg brif ffrwd

ARWEINWYR HEDDIW

Prosiectau grymuso disgyblion tymor hw

HYFFORDDIANT STAFF YSGOL

Gyda'r hwyr, diwrnodau HMS, cyfres neu sesiynau ymarferol i weddu i'ch anghenion

CYMORTH CYNLLUNIO ARCHWILIO A GWEITHREDU

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

GWEITHDAI I DDISGYBLION

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cynnig gweithdai addysgol ac atyniadol i ddisgyblion ledled Cymru, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o hiliaeth, hyrwyddo cyfiawnder, a grymuso pobl ifanc i herio rhagfarn a hiliaeth.

Caiff ein gweithdai rhyngweithiol eu cynnal gan addysgwyr profiadol, gyda deunyddiau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod y sesiynau'n ysbrydoledig ac yn effeithiol. Mae pob gweithdy wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion ac oedran y grŵp, gan ddefnyddio clipiau cyfryngau, trafodaethau a gweithgareddau i ymdrin â phynciau megis:

- **Beth ydy hiliaeth, a sut mae'n effeithio ar unigolion a chymunedau**
- **Sut gallai disgyblion fwrw iddi i fod yn wrth-hiliol**
- **Hanes ac effaith hiliaeth yng Nghymru a thu hwnt**
- **Stereoteipio, rhagfarn, a sut i herio gwybodaeth anghywir**
- **Sut i fod yn gynghreiriad gweithredol a gwrthsefyll gwahaniaethu**

Gellir cynnal gweithdai mewn:

- ✓ **Ysgolion cynradd**
- ✓ **Ysgolion uwchradd**
- ✓ **Unedau Cyfeirio Disgyblion**
- ✓ **Ysgolion Arbennig**
- ✓ **Colegau**

"Ar gychwyn y bore doeddwn i ddim yn deall cymaint am hiliaeth, ond erbyn diwedd y dydd drwy gwblhau'r gweithdy fe wnes i ddysgu mwy am hiliaeth a sut y gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth ac effaith hiliaeth ar gymunedau."

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

ARWEINWYR HEDDIW

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cynnig prosiectau grymuso disgyblion, yn amrywio o dymor ar lefel cynradd i flwyddyn ysgol gyfan ar lefel uwchradd, gan rannu'r adnoddau gyda'r disgyblion i arwain newid yn eu sefydliad eu hunain. Byddwn yn cydweithio gyda disgyblion dethol sy'n llysgenhadon gwrth-hiliaeth i ffurfio grŵp gwrth-hiliaeth yn yr ysgol. Caiff y grŵp eu cefnogi i godi ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth, cyflawni ymchwil a chynllunio gweithrediadau'n unol â hynny. Byddan nhw'n cwblhau'r prosiect drwy rannu eu gwaith gyda chymuned ehangach yr ysgol.

Nodau'r Prosiect:

- **Meithrin dealltwriaeth o hiliaeth a gwrth-hiliaeth ledled yr ysgol**
- **Hybu hyder yn herio hiliaeth**
- **Grymuso disgyblion i arwain gwaith gwrth-hiliaeth**

Deilliannau'r Prosiect:

✓ **Disgyblion yn gallu adnabod hiliaeth**
✓ **Disgyblion yn teimlo'n hyderus yn herio hiliaeth**
✓ **Disgyblion yn cymryd camau rhagweithiol i rwystro hiliaeth rhag digwydd yn yr ysgol**
✓ **Disgyblion yn teimlo bod llais ganddyn nhw i herio hiliaeth a'u bod yn teimlo wedi'u grymuso i weithredu**

'Gweld dros amser sut rydych chi [y disgyblion sy'n llysgenhadon] wedi meddwl am syniadau, cymaint o ffyrdd creadigol o hybu ymwybyddiaeth ynghylch y neges gwrth-hiliaeth a'r gred y gallwch chi wneud gwahaniaeth. Mae'r sgyrsiau hynny roeddech chi'n eu cael gyda disgyblion a staff a gweld effaith hynny a sut mae hynny wedi eich annog chi i ategu eich gwaith a chyflawni mwy wedi bod yn wych yn fy marn i, o gychwyn y prosiect hyd at heddiw ac mae'n gyffrous gweld eich camau nesaf'.

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

HYFFORDDIANT I STAFF YSGOLION

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cynnig hyfforddiant gwrth-hiliaeth arbenigol i staff ysgolion ym mhob cwr o Gymru, gan gefnogi addysgwyr i greu amgylcheddau dysgu hollgynhwysol a gwrth-hiliaeth.

Mae ein hyfforddiant yn addas i holl staff ysgolion – o uwch dimau arweinyddiaeth ac athrawon i staff cynorthwyol a llywodraethwyr – ac mae wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion eich ysgol neu sefydliad.

Gallwn gynnal y sesiynau fel:

- **Sesiynau cyfnos**
- **HMS hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn**
- **Cyfres o sesiynau ar gyfer dysgu dyfnach ac effaith barhaus**

Mae hyfforddiant yn ymdrin â meysydd allweddol megis:

- **Deall hiliaeth: iaith, strwythurau, ac effaith**
- **Y cyd-destun Cymraeg: hiliaeth yng Nghymru, yn hanesyddol a heddiw**
- **Ymdrin â rhagfarn anymwybodol a braint**
- **Ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth ledled y cwricwlwm**
- **Trin digwyddiadau hiliol yn hyderus ac yn briodol**
- **Meithrin dull ysgol gyfan i wrth-hiliaeth**

Mae ein hwyluswyr profiadol yn creu man diogel, cefnogol ar gyfer myfyrio, trafodaethau agored a chynllunio gweithrediadau ymarferol.

Pam ddylech chi ddewis hyfforddiant Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth?

✓ Mae'n cefnogi cydymffurfio gydag ymrwymiadau gwrth-hiliaeth Llywodraeth
✓ Wedi'i gyflawni gan elusen addysgol gwrth-hiliaeth blaenllaw y DU
✓ Mae wedi'i deilwra i gymuned eich ysgol
✓ Cyfarpar ac adnoddau ymarferol

"Rydw i'n teimlo'n llawer mwy hyderus o ran yn union pa gamau i'w cymryd y tro nesaf y byddaf yn dyst i ddigwyddiad hiliol yn yr ysgol."

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

CYMORTH ARCHWILIO A CHYNLLUNIO GWEITHREDU

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cydweithio'n uniongyrchol gydag arweinwyr ysgolion ledled Cymru i gynnig cymorth archwilio a chynllunio gweithredu wedi'i deilwra, gan helpu ysgolion i gymryd camau ystyrlon, strategol tuag at ddod yn wrth-hiliaeth yn weithredol.

Drwy sesiwn bwrpasol neu gyfres o sesiynau, rydym yn cefnogi uwch dimau arweinyddiaeth i gyflawni'r canlynol:

- **Deall sut gallai hiliaeth fodoli mewn polisïau, arferion, a diwylliant ysgolion**
- **Myfyrio'n onest ar gryfderau, diffygion a heriau cyfredol**
- **Ymdrin â sut mae gwrth-hiliaeth yn ymddangos ar waith yn eu cyd-destun penodol nhw**
- **Llunio cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth pendant, cyraeddadwy a chynaliadwy**

Fel rhan o'n cymorth, rydym yn cynnig:

✓ Adnodd hunan-archwilio strwythuredig
✓ Hwyluso ac arweiniad arbenigol
✓ Cysylltiadau â pholisïau cenedlaethol ac ymrwymiadau gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru
✓ Argymhellion ymarferol, wedi'u teilwra ar gyfer cwricwlwm, arweinyddiaeth, polisïau a diwylliant yr ysgolion

Drwy gydweithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, bydd arweinwyr ysgolion yn gadael wedi hybu eu hyder, gyda chamau nesaf pendant a chynllun ar gyfer ymgorffori gwrth-hiliaeth yn ystyrlon ac yn strategol ledled eu hysgol.

"Roedd y sesiwn gyda'r tîm arweinyddiaeth yn fodd inni fyfyrio ar yr hynny oedd yn effeithiol o ran ein taith gwrth-hiliaeth a beth ddylen ni ei flaenoriaethu o hyn ymlaen.

Ar ôl y sesiwn, roedd modd inni lunio polisïau ar gyfer ein hysgolion a oedd yn gweddu i'n dibenion gan symud ymlaen"

DIOLCH

Diolch am roi o'ch amser i fwrw golwg ar gynigion addysg Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Os hoffech chi holi am ddyfynbris neu drefnu gweithdy, sganiwch y cod QR isod – mae'n gyflym ac yn rhwydd!

Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi i helpu creu amgylchedd dysgu mwy cynhwysol a gwrth-hiliaeth.

Sganiwch i Drefnu Gweithdy